# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

## *15/1/2024*

**Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams,

Cynghorydd Alan Jones Evans

Lis Puw (Clerc)

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau:** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau W D Williams. Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb ac estynnodd llongyfarchiadau i Emyr Jones ar gael ei ddewis yn Lywydd Cymdeithas y Gwartheg Duon.

2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant Tyly Roberts ym mater gohebiaeth am y Triathlon.

4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 13/11/23.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans. Roedd yn dda ganddo adrodd fod y safle ail-gylchu wedi symud o'r maes parcio a bod bodlonrwydd gyda'r safle newydd. Dywedodd ei fod yn trefnu i finiau Pentre Piod cael eu casglu o waelod eu ffordd. Bydd Cyngor Gwynedd yn tynnu'r gorlan ar yr hen safle.

   Mae swyddogion Cyngor Gwynedd yn y broses o drefnu cyfarfod apêl ynglŷn a'r Glirffordd; os bydd y cynllun yn cael ei dderbyn, disgwylir i'r arwyddion fod yn eu lle erbyn mis Ebrill.

6. **Materion Lleol y Cynghorwyr:** Peryglon o'r afon yng Nghwm y Glyn – bydd y swyddogion yn ymweld yn fuan.

   Cadarnhawyd y bydd Dŵr Cymru yn gweithio ar y darn hwnnw o'r Ffordd o Dŷ Hwnt i'r Afon i Bont Rhiwaedog, Rhosygwaliau, o bwynt gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Tŷ Newydd gan deithio mewn cyfeiriad gogledd orllewinol am oddeutu 70m ar 30/1/24

7. **Materion Ariannol:** Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

   i. Rhan-daliad i Gyngor Cymuned Llanuwchllyn am aelodaeth SLCC: £20
   ii. Anfoneb gwrych y fynwent (Talwyd hyn cyn y Nadolig trwy gytundeb e-bost rhwng y Cynghorwyr)
   iii. Debyd Uniongyrchol ico: £35
   iv. Archwilio Cymru 2022-23: £200
   v. Anfoneb Gwefan: £250
   vi. Swyddfa Clercio: £325
   vii. Cyfraniad tuag at Frecwast y Ffermwyr 19/1/24: £20 (Clerc i gynrychioli'r Cyngor)

- Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i Gymdeithasau wneud cais am gyfraniad cymunedol
- Derbyniwyd Adroddiad Archwilio Cymru a ddaeth i law yn ddiweddar. Nid oedd yr Archwiliad wedi canfod unrhyw fater o bryder.

- Cynhaliwyd Is-bwyllgor ariannol (caeedig) – gweler Cofnodion ar wahân .

8. **Llwybr y fynwent:** mae’r contractiwr yn ymwybodol fod angen cwblhau’r gwaith erbyn Mawrth 2024.

9. **Cynllunio:**

   i. NP5/70/155C Gosod estyniad tŵr 5m. Bwlch yr Hwch Cwm Hirnant - **Cymeradwywyd**
   ii. NP5/70/71F Dymchwel adeilad allanol, estyniad unllawr yn y cefn, yr estyniad deulawr a’r ystafell haul ar y blaen, newidiadau ac adeiladu estyniadau i drosi’r ddau dŷ presennol yn un annedd Felindre & Fron Sero, Llanuwchllyn - **Cymeradwywyd**
   iii. NP5/70/163B Gosod 6 antena newydd ar fast telathrebu presennol, 6 cabinet newydd ar y ddaear, unedau radio o bell, nodau GPS, mwyhadur pen mast ac offer cysylltiedig a gwaith ategol - Craig yr Allt Ddu - **Cymeradwywyd**

10. **Gohebiaeth:**

    i. Un Llais Cymru:
       a. Dyddiadau Hyfforddiant
       b. Gweminar: Teithiau hunan-dywys rhyngweithiol ar gyfer pentrefi, trefi a chymunedau. **Dyddiad:** Dydd Iau 25 Ionawr 2024 (Zoom) 10:30-12:00
       c. Sesiynau hyfforddi (am ddim i Gynghorwyr) sy'n ymwneud â sgiliau digidol sy'n cael eu cynnal ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2024.
    ii. Trefnwyr y Triathlon – cytunwyd i ymateb yn debyg i Gyngor Cymuned Llanuwchllyn, gan bwysleisio mor hanfodol bwysig yw rheolaeth gadarn ar y drafnidiaeth leol rhwng Pont Mwnwgl y Llyn a gwaelod ffordd Bwlch y Groes er mwyn osgoi’r trafferthion a gafwyd llynedd.
    iii. Cais am gefnogaeth gan Rhodri Francis, Ymgyrchydd Cyfiawnder, - Gadawyd ar y bwrdd
    iv. Parc Cenedlaethol Eryri: cais i blannu coed yw yn y fynwent. Cytunwyd i wahodd y swyddogion perthnasol i ymweld a’r fynwent i ystyried beth sy’n bosib heb amharu ar y bioamrywiaeth sydd yno ar hyn o bryd.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 11/3/24

*Amser gorffen: 9.20pm*

Arwyddwyd………………………………………. (Cadeirydd) / / …………………………….(Clerc) 